

Senedd Cymru / Welsh Parliament Grŵp

Trawsbleidiol ar STEMM

Cyfarfod am 9.30am, dydd Mawrth 28 Medi, ar Zoom

Cofnodion

Yn bresennol: David Rees AS, Altaf Hussain AS, Jack Sergeant AS, Mark Isherwood AS, Leigh Jeffes, Niall Sommerville, Rhobert Lewis, Glen Gilchrist, Cerian Angharad, Lee Gonzalez (ar ran Joel James AS), Faron Moller, Keith Jones, Mike Charlton, Paul Harrison, Rob Janes, Robert Hoyle, Eluned Parrott, Geertje van Keulen, Helen Taylor,

Dyma gyfarfod cyntaf y grŵp yn dilyn yr etholiad. Croesawyd aelodau i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai sydd am ymuno â'r grŵp. Cyfarfod byr iawn fydd hwn er mwyn ailsefydlu'r grŵp yn unol â rheolau'r Senedd.

Ymddiheuriadau: Tom Addison, Dayna Mason, Dave Jones

1) Ailsefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

Croesawodd David Rees AS, Cadeirydd blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM, bawb i'r cyfarfod. Dywedodd David y byddai angen iddo adael y cyfarfod oherwydd busnes y Senedd ac o'r herwydd aethom ymlaen yn brydlon gyda busnes.

a) Ethol Cadeirydd

Derbyniwyd un enwebiad ar gyfer y Cadeirydd, sef David Rees AS. Cynigiwyd David gan Jack Sergeant AS a chafodd ei eilio gan Helen Taylor. Etholwyd David Rees AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM.

b) Ethol Is-gadeiryddion

Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd, sef Jack Sergeant AS a Mark Isherwood AS. Etholwyd y ddau yn Is-gadeiryddion drwy ganmoliaeth.

c) Ethol Ysgrifenyddiaeth

Derbyniwyd un enwebiad ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth, sef Niall Sommerville o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol. Cynigiwyd Niall gan Jack Sergeant AS ac Altaf Hussain AS a bydd yn darparu cymorth Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp yn ystod y sesiwn hon.

2) Enw a phwrpas y grŵp

Pwrpas presennol y grŵp yw *“Dwyn ynghyd Aelodau o’r Senedd ac eraill sydd â diddordeb mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) yng Nghymru, gyda’r nod o godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau o’r Senedd o ddatblygiadau pwysig yn y meysydd STEM, o ran technoleg ac addysg; a sut mae materion polisi yn effeithio ar y meysydd hyn.”*

Ar ddechrau’r sesiwn flaenorol, cytunwyd y byddai’r grŵp yn dod yn Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM i gynnwys ‘Meddygaeth’ yn y teitl. O’r herwydd, mae angen diweddarau’r enw a’r pwrpas gydag awdurdodau’r Senedd. Cytunodd yr aelodau i newid yr enw.

Cam i’w gymryd: NS i ddiweddarau enw a phwrpas yn ystod y broses o gofrestru’r Grŵp Trawsbleidiol

3) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021

Dosbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod a chytunwyd arnynt. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4) Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Anogwyd yr aelodau i rannu meysydd y credant y dylai’r grŵp ganolbwyntio arnynt dros y sesiwn i ddod a gwneud awgrymiadau ar gyfer pynciau yn y cyfarfodydd.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys:

- Sgiliau ar gyfer y dyfodol – edrych ar y sgiliau gwyrdd sydd eu hangen i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r bylchau sgiliau presennol, a awgrymwyd gan Jack Sergeant AS. Awgrymwyd y gallai hyn gyd-fynd â gwahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd newydd i gyfarfod yn y dyfodol i ganiatáu i aelodau drafod creu Gweinidogaeth Newid Hinsawdd newydd Llywodraeth Cymru.
- Ynni niwclear a ffynonellau ynni eraill - **Cam i’w gymryd: NS i holi Mark Isherwood AS ynghylch y cyflwyniad diweddar ar ynni niwclear.**
- Ffiseg feddygol a’i rôl mewn meddygaeth – awgrymwyd gan Lee Gonzalez ar ran Joel James AS. Dywedodd Geertje van Keulen y gallai hyn gyd-fynd â gwaith sy’n cael ei wneud ar ddelweddu mewn STEM a gwyddoniaeth deunyddiau. Dywedodd Dr Robert Hoyle fod cydweithwyr Swyddfa Gwyddoniaeth ac Iechyd Llywodraeth Cymru yn gwneud cryn dipyn o waith ar radioisotopau meddygol, sy’n cynnwys radiodiagnosics. Nodwyd y byddent yn falch iawn o drafod y gwaith hwn a’i uchelgeisiau.
- Dywedodd Helen Taylor fod angen gwneud gwaith yng Nghymru i ddal i fyny â gweddill y DU ar strategaeth fwyd genedlaethol. Tynnodd sylw at y prinder presennol mewn sgiliau a’i effeithiau – o’r cynhyrchydd amaethyddol hyd at y defnyddiwr.

Cam i’w gymryd: NS i lunio awgrymiadau/cynllun gwaith ar gyfer y cyfarfod nesaf i nodi pynciau cyfarfod arfaethedig.

5) Unrhyw fater arall

Ni nodwyd unrhyw fater arall.

6) Cloi'r cyfarfod